Digidol 2030


DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16

## Dysgu ac addysgu cyfunol: canllaw byr

**Gorffennaf 2020**



# Canllaw ar gyfer sefydliadau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru

Ar 20 Mai roeddem wedi cyhoeddi ein Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16 (gan gynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned), a oedd yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i rhanddeiliaid i ddiwallu'r newidiadau yn anghenion dysgwyr a chyflogwyr Cymru yn ystod pandemig Covid-19 a'r tu hwnt.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr dysgu a phartneriaid i ddatblygu fframwaith a gweledigaeth gyffredinol ar gyfer darparu'r dysgu ôl-16 o fis Medi 2020 ymlaen. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu bod yr holl ddysgwyr yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, gan ddefnyddio dysgu cyfunol (fel sy'n cael ei ddiffinio isod) i wella'r profiad dysgu ac i helpu i weithredu'n ddiogel. Mewn rhai achosion bydd darparwyr yn bwriadu darparu dysgu cyfunol ac ar-lein, ni waeth beth fydd y sefyllfa gyda Covid-19, a bydd y canllawiau hyn hefyd yn berthnasol iddyn nhw.

**Diffiniad o ddysgu cyfunol:**

*Mae dysgu cyfunol yn gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau a chynnwys digidol dynamig sy'n golygu bod modd dysgu unrhyw le/unrhyw bryd.*

https://www.jisc.ac.uk/guides/creating-blended-learning-content

Mae symud cynnwys yr ystafell ddosbarth ar-lein yn hollol wahanol i raglen o ddysgu cyfunol wedi'i chynllunio sydd i bob pwrpas yn integreiddio gweithgareddau wyneb yn wyneb a gweithgareddau o bell. Mae gweithio yn y ffordd hon yn galw am sgiliau penodol gan y dysgwyr a gan y staff. Rydym yn cydnabod bod hon yn broses barhaus ac y bydd hi'n cymryd amser i gael dysgu cyfunol o safon uchel ar draws y sector cyfan.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu rhai o'r prif ystyriaethau ar gyfer datblygu a gwreiddio rhaglenni dysgu cyfunol, ac maent yn cyfeirio at ragor o ddeunyddiau darllen posibl.

- Beth yw nodweddion dysgu cyfunol effeithiol?
- Cynllunio rhaglenni dysgu cyfunol
- Strategaethau addysgu a dysgu
- Lles digidol
- Hygyrchedd a chynhwysiant

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu drwy ymgynghori â'n Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyd-undebau Llafur, Estyn, Jisc, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, ColegauCymru, Cymwysterau Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

## Beth yw nodweddion dysgu cyfunol effeithiol?

- Mae'r dysgu'n cael ei gynllunio i ystyried y dulliau cyflwyno gwahanol er mwyn creu rhaglenni cydlynol sydd â nodau, amcanion a phwyntiau asesu clir.
- Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau astudio ac ymchwilio annibynnol, llythrennedd gwybodaeth, cymhelliant a chadernid.
- Mae'r dysgwyr yn cael eu cyfarwyddo er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud a sut mae cael help os bydd angen.
- Mae'r cydrannau digidol ac wyneb yn wyneb yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn iddynt integreiddio a chyd-fynd â'i gilydd, a bod y naill yn gwella ac yn cyfoethogi'r llall.
- Mae amser wyneb yn wyneb yn cael ei flaenoriaethu i ddarparu gweithgareddau ymarferol nad oes modd eu gwneud ar-lein, ac er mwyn i gyfoedion gydweithio. Dyma fydd y "sgaffaldwaith" ar gyfer y dysgu o bell, a bydd yn cynnwys asesu ffurfiannol, adborth, ailgyfeirio ac arweiniad.
- Mae'r staff a'r dysgwyr yn deall beth a ddisgwylir ganddynt, gan gynnwys sawl awr o ddysgu wyneb yn wyneb, o bell ac annibynnol sydd eu hangen, ac unrhyw hyblygrwydd o ran presenoldeb a phryd byddant yn dysgu.
- Mae'r dysgu yn wahanol yn ôl anghenion unigol y dysgwyr, gan gynnwys cefnogaeth ychwanegol pan fydd angen a gweithgareddau "ymestyn a herio".
- Mae anghydraddoldebau digidol a'r rhwystrau i ddysgwyr agored i niwed yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno'r dysgu.
- Mae'r gweithgareddau'n cael eu dylunio i helpu dysgwyr a staff i reoli "blinder sgrin", gan gynnwys sesiynau byr a phenodol, amser ar gyfer egwyliau rheolaidd ac amserlennu hyblyg.
- Mae'r dysgwyr yn deall pryd a sut mae cyflwyno gwaith a byddant yn cael adborth adeiladol ar y gwaith hwnnw'n brydlon.
- Mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd i gydweithio a chefnogi ei gilydd, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ymgysylltiad y dysgwyr yn cael ei fonitro a bydd dealltwriaeth glir o sut beth yw ymgysylltu da.

**Rhagor o ddeunyddiau darllen ac adnoddau defnyddiol:**

Canllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch: Building a taxonomy for digital learning (2020) Estyn

Llywodraeth Cymru: Arolwg dysgu ac adnoddau ar-lein: canlyniadau a chamau nesaf (2020)

Adran dysgu o bell Hwb: Dysgu a sgiliau ôl-16 (2020)

Rhestr chwarae Hwb: Cyflwyniad i fframwaith strategol Digidol 2030 (2019)

Jisc: Digital 2030 interactive guide (diweddarwyd 2020)

## Cynllunio rhaglenni dysgu cyfunol

Mae angen ystyried ystod eang o elfennau i gefnogi rhaglenni dysgu cyfunol effeithiol:

- Ydych chi'n deall yn iawn sut beth yw dysgu cyfunol effeithiol, gan gynnwys sut mae hyn yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer asesu ac arolygu, gyda safonau proffesiynol perthnasol a Digidol 2030?
  - Sut mae'r ddealltwriaeth hon yn cael ei chyfleu a'i rhannu yn eich sefydliad? Oes gennych chi unrhyw 'bencampwyr' sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol?
  - Ydy polisïau'r sefydliad (ee diogelu data, diogelwch ar-lein, diogelu) wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cyd-destun newydd hwn? Sut bydd y staff a'r dysgwyr yn cael gwybod am yr wybodaeth sy'n berthnasol iddynt?

- Ydych chi'n gwybod beth yw eich nodau a sut byddwch chi'n gwybod eich bod yn defnyddio dysgu cyfunol yn llwyddiannus yn eich sefydliad (a/neu ar gyfer rhaglenni unigol neu grwpiau penodol o ddysgwyr)?
  - Dylai'r weledigaeth hon hefyd adlewyrchu adborth gan y staff a'r dysgwyr.
  - Sut byddwch chi'n monitro'r cynnydd ac yn mesur yr hyn byddwch chi'n ei gyflawni?
  - Sut (a phryd) byddwch chi'n cael adborth gan eich staff a'ch dysgwyr fel rhan o'r gwaith o werthuso eich cynnydd? Sut bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygiadau pellach?

    *Mae arolwg blynyddol Insights Jisc yn cynnig cyfleoedd i gael adborth gan staff a myfyrwyr, a meincnodi canlyniadau sefydliad drwy gymharu â chanlyniadau ar draws y sector. Mae'r prif ganfyddiadau'n cael eu crynhoi fel arfer ar lefel DU (AB) a Chymru gyfan (Addysg Bellach, Dysgu seiliedig ar waith a Dysgu oedolion).*

- Sut beth fydd y profiad newydd i ddysgwyr? Beth yw eich disgwyliadau; ar gyfer y dysgwyr a'r ymarferwyr, y staff gweinyddol a'r staff cymorth? Sut byddwch chi'n datblygu ac yn cyfleu'r disgwyliadau hyn?
  - Pa wybodaeth fydd ei hangen ar ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen, ac fel rhan o'u rhaglen sefydlu? Sut bydd y prif negeseuon yn cael eu cyfleu?
  - Sut bydd y dysgwyr sydd heb y cyfarpar angenrheidiol, a/neu'r sgiliau i ymwneud â dysgu digidol o bell, yn cael eu canfod a'u cefnogi?
  - A fydd cyfleoedd i ddysgwyr ennill a/neu wella eu sgiliau digidol yn cael eu cynnwys yn eu cyrsiau, neu a fyddant ar gael drwy ddarpariaeth ychwanegol?
  - Sut bydd dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n effeithiol?

- Ydy eich seilwaith technegol craidd a'ch gwasanaethau cymorth TG yn barod i'ch cefnogi i gyflawni'r weledigaeth hon? Os nad ydynt, pa newidiadau fydd eu hangen?
  - Oes gan y staff y cyfarpar TG, yr offer, y feddalwedd a'r mynediad at y llwyfannau digidol sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon; a'r hyder i'w defnyddio?
  - Pa awgrymiadau a thechnegau ymarferol gellir eu rhannu? A oes sianeli addas ar gael i'r staff a'r dysgwyr eu defnyddio i ofyn am gefnogaeth ychwanegol (gan gynnwys technoleg gynorthwyol)?

- Cofiwch er bod modelau dysgu cyfunol yn cynnig llawer o gyfleoedd a hyblygrwydd nad ydynt o bosibl yn briodol i bawb, bob amser.

## Strategaethau addysgu a dysgu

Pa egwyddorion cyffredinol sydd eu hangen i gefnogi dull dysgu cyfunol?

- Dylai darparwyr dysgu ddarparu amgylcheddau digidol hygyrch, cymdeithasol a phersonol ar gyfer yr unigolyn. Rhaid i rai ardaloedd fod yn agored ac yn hawdd eu cyrraedd, a dylai ardaloedd eraill (gan ddibynnu ar natur gweithgareddau'r dysgwyr, gofynion diogelu data ac ati) fod yn ddiogel.
- Mae'r Safonau Digidol Newydd ar gyfer Addysg Ôl-16 yng Nghymru (a ddatblygwyd dan y fframwaith strategol Digidol 2030) yn rhoi safonau clir y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer sgiliau digidol.
- Dylai darparwyr dysgu alluogi eu hymarferwyr i addysgu mewn ffordd ymatebol a hyderus, gan ystyried cymhellion, diddordebau, hanes dysgu ac adnoddau gwahanol y dysgwyr.
- Mae'r dysgu'n cael ei gynllunio i integreiddio i'r dulliau gwahanol o ddarparu mewn model cyfunol, er mwyn creu rhaglenni cydlynol sydd â nodau, amcanion a phwyntiau asesu clir, ac er mwyn ymgorffori gofynion darparu'n ddwyieithog.
- Mae'r gweithgareddau dysgu digidol yn cael eu dylunio i helpu'r dysgwyr a'r staff reoli "blinder sgrin", gan gynnwys sesiynau byr a phenodol, amser ar gyfer egwyliau rheolaidd ac eglurder i'r dysgwyr ac i'r staff ynghylch pryd gallant gwblhau gweithgareddau ar wahanol adegau neu mewn gwahanol ffyrdd.
- Cydbwyso'r angen i ddysgwyr gymryd rhan ar yr un pryd, mewn slot wedi'i drefnu (dysgu cydamserol) â darparu adnoddau, gweithgareddau a thasgau y gallant gael gafael arnynt a'u cwblhau pan fydd hynny'n hwylus iddynt (dysgu anghydamserol). Mae hyn yn gallu helpu dysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu a/neu fynediad cyfyngedig at gyfarpar TG neu WiFi gartref.
- Bydd yr ymarferwyr yn cynllunio i gefnogi'r dysgwyr i astudio ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy fod yn glir am y sgiliau a'r drefn bersonol sydd eu hangen i astudio o bell, drwy rannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth, disgwyliadau, arferion astudio da a hygyrchedd. Dylent hefyd ddal ati i 'ymestyn a herio' dysgwyr, a chynnig cyfleoedd i gyfoedion ryngweithio a chydweithio â'i gilydd.
- Dylai darparwyr ac ymarferwyr dysgu gefnogi'r dysgwyr i gael gafael ar gynnwys ac adnoddau dysgu cyfoethog ac amrywiol a'u defnyddio.
- Dylai'r dysgwyr ddeall pryd a sut i gyflwyno gwaith, a dylent gael amserlenni clir ar gyfer derbyn adborth adeiladol.

**Rhagor o ddeunyddiau darllen ac adnoddau defnyddiol:**

Jisc: What makes a successful online learner? (2016)

Jisc: Developing blended learning approaches (diweddarwyd 2020)

Jisc: What is digital capability?

Learn My Way: cyrsiau ar-lein am ddim i helpu pobl i ddatblygu sgiliau digidol (hefyd ar gael yn Gymraeg)

Syniadau ar gyfer ymarfer a chadw sgiliau Cymraeg (2020)

## Lles digidol

Mae hi'n bwysig gofalu am les dysgwyr a staff er mwyn eu helpu i gydbwyso'r ymrwymiadau eraill sydd ganddynt, a'u bod yn dal ati i ymgysylltu â'r dysgu.

- Addaswch eich arferion mewn ffordd sy'n addas i'r amgylchedd ar-lein a meddwl am leihau'r pwysau sydd ar ddysgwyr drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael yn fwy creadigol. Er enghraifft allech chi ddefnyddio fideo a fforymau sgwrsio i'w gwneud hi'n haws cymryd rhan?
- Meddyliwch am ddiogelwch ar-lein a diogelwch data pan fyddwch chi'n dewis ac yn defnyddio llwyfannau ac offer digidol. Mae cyngor ar ddiogelwch ar-lein ar gael gan Jisc, ac ar Hwb.
- Bydd dylunio adnoddau a gweithgareddau dysgu mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hawdd cael gafael arnynt, a rhoi dewis i'r dysgwyr o ran sut maent yn ymgysylltu'n aml yn arwain at brofiad gwell i'r defnyddiwr. Meddyliwch am elfennau dylunio syml fel cefndir lliw a ffontiau.
- Ewch ati i feithrin gallu digidol eich dysgwyr a'ch staff i godi eu hyder wrth ddefnyddio offer a sianeli digidol, a'u helpu i ddewis offer digidol sy'n briodol i'r dysgu ac i'r addysgeg, a defnyddio'r offer hyn yn effeithiol. Gallai mentora digidol gefnogi'r dysgwyr a'r staff i ddatblygu eu sgiliau digidol gyda'i gilydd.
- Gofynnwch am adborth gan ddysgwyr i gael gwybod beth sy'n gweithio a beth sy'n llai defnyddiol iddyn nhw. Efallai y bydd gan ddysgwyr syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella.
- Sut ydych chi'n cefnogi ac yn ymgysylltu â'ch dysgwyr o bell? Ydych chi'n cynnig cyfle i ddysgwyr unigol drefnu sgyrsiau un i un gyda'u tiwtor neu asesydd?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac ymarfer eu Cymraeg oddi ar y safle? Ydy dysgwr sy'n siarad Cymraeg yn cael cynnig y dewis i gyfathrebu ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg a chael gwasanaethau cymorth drwy'r Gymraeg? Oes adnoddau dwyieithog neu Gymraeg ar gael ar gyfer grwpiau ieithoedd cymysg?
- Meddyliwch sut gall eich sefydliad gadw synnwyr o gymuned a galluogi pawb i barhau i ryngweithio'n gymdeithasol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Oes gennych chi gylchlythyr neu ofod cymdeithasol digidol? Ydych chi'n cynnig gweithgareddau cymdeithasol (ee cwisiau, clybiau, hobïau) y gall dysgwyr gymryd rhan ynddyn nhw o bell? A oes unrhyw grwpiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg (neu sy'n dysgu Cymraeg)?
- Meddyliwch am gynnwys, brys a blaenoriaeth eich neges. Ydy eich neges 'er gwybodaeth' ynteu oes angen ymateb? Oes angen ei hanfon ar unwaith fel neges ar wahân ynteu a fyddai modd ei chynnwys mewn cylchlythyr neu ddiweddariad arall sydd wedi cael ei drefnu? Ydy eich neges yn glir, yn gryno ac yn hawdd ei deall i helpu dysgwyr a staff a allai fod yn cael eu 'gorlwytho â gwybodaeth'?

**Rhagor o ddeunyddiau darllen ac adnoddau defnyddiol:**

Jisc: Digital wellbeing of learners (diweddarwyd 2020)
Jisc: Digital wellbeing during lockdown – the student perspective a the staff perspective)
Jisc: How your digital policies can support online safety (2020)
Jisc: Horizons report – Emerging technologies and the mental health challenge (2019)

## Hygyrchedd a chynhwysiant

Mae cynhwysiant yn dal yn bwysig gyda phob math o ddysgu, ac mae'n bosibl y bydd dysgwyr ag anableddau neu anghenion cymorth ychwanegol yn teimlo'n arbennig o agored i niwed a gallent fod mewn perygl o ymddieithrio os nad ydynt yn gallu cael gafael ar eu ffynonellau cymorth 'arferol'.

- Mae rheoliadau hygyrchedd ar gyfer cyrff sector cyhoeddus (2018) yn berthnasol i wefannau, rhaglenni symudol a deunyddiau ar-lein. Mae Jisc wedi paratoi adnoddau a chyngor ymarferol i helpu darparwyr dysgu i ddeall ac i weithredu'r ddeddfwriaeth hon, ac mae'n cynnal cymuned ymarfer hygyrchedd.
- Mae'n bosibl i'r amgylchedd y bydd dysgwyr yn gweithio ynddo ac ystyriaethau eraill (fel cyfrifoldebau gofalu neu anghenion gofal plant) effeithio ar eu gallu a'u parodrwydd i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau dysgu. Mae adborth o gyfnod y cyfyngiadau symud yn dangos bod rhai dysgwyr o bosibl yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle mae'n rhaid iddynt ddefnyddio fideo byw (a dangos eu hamgylchedd).
- Efallai nad oes gan rai dysgwyr lawer o fynediad at gyfarpar TG (os ydynt yn rhannu dyfeisiau a/neu wifi ag aelodau eraill o'r aelwyd). Efallai nad oes gan rai dysgwyr gyfarpar TG addas, neu efallai fod problemau eraill (ee problemau cysylltu gartref). Efallai na fydd gan ddysgwyr sydd ag anableddau neu anghenion cymorth ychwanegol fynediad at y feddalwedd a'r caledwedd sydd eu hangen arnyn nhw pan fyddant oddi ar y safle. Dylai darparwyr dysgu ystyried sut bydd anghenion y dysgwyr hyn yn cael eu canfod a'u cefnogi.
- Dylai llwyfannau digidol, offer, adnoddau a gweithgareddau fod yn gydnaws â thechnoleg gynorthwyol er mwyn helpu i gefnogi pobl ag anableddau.
- Efallai fod defnyddwyr yn defnyddio ystod ehangach o ddyfeisiau gyda sgriniau gwahanol faint (ee ffôn clyfar, tabled, Chromebook, gliniadur, cyfrifiadur bwrdd gwaith) a gyda chaledwedd gwahanol (gyda/heb lygoden, pad tracio neu fysellfwrdd). Efallai nad oes gan ddysgwyr yr un systemau gweithredu a/neu feddalwedd ag y bydd eich sefydliad yn eu darparu ar y safle. Mae angen ystyried hyn wrth gynllunio gweithgareddau dysgu, cynnwys ac adnoddau.
- Bydd creu cynnwys hygyrch o fudd i lawer o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt efallai wedi datgan anabledd neu angen cymorth ychwanegol.
- Gallech chi ddarparu templedi dogfennau hygyrch i staff eu defnyddio a'u haddasu? Mae Prifysgol Sussex a Chyngor Swydd Gaerwrangon wedi cynhyrchu canllawiau ar-lein a phosteri mae modd eu llwytho i lawr.

**Rhagor o ddeunyddiau darllen ac adnoddau defnyddiol:**

Jisc: Meeting accessibility regulations (2018)

Jisc: Steps to improve your organisation's digital accessibility (2020)

eAccessibility Wales: cyfeiriadur ar gyfer meddalwedd, caledwedd a gosodiadau cyfrifiadurol i wneud eich cyfrifiadur yn haws ei ddefnyddio